**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (DINAS I DREFDRAETH, SIR BENFRO) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Dinas a Threfdraeth, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn yr atodlen honno hefyd;

ii. gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), ar y darn o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), ar y darnau o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Hysbysiad hwn; a

iv. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), rhag goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A487 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 11 Ionawr 2024.

Disgwylir y bydd cau'r ffordd yn i. uchod, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 11 Chwefror 2024 hyd 20 Chwefror 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn ii., iii. ac iv. uchod yn weithredol yn ysbeidiol o 00:01 o'r gloch ar 11 Ionawr 2024 ac yn parhau'n weithredol hyd 23:59 o'r gloch ar 20 Chwefror 2024.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**THE A487 TRUNK ROAD (DINAS TO NEWPORT, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between Dinas and Newport, Pembrokeshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, (other than those being used by the emergency services or for the works), from proceeding on the length of the A487 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route, which will be signed accordingly, is also described therein;

ii) impose a 40 mph speed limit on all vehicles (other than those being used by the emergency services), on the length of the A487 trunk road described in Schedule 2 to this Notice;

iii) impose a 10 mph speed limit on all vehicles (other than those being used by the emergency services), on the lengths of the A487 trunk road described in Schedules 2 and 3 to this Notice; and

iv) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), from overtaking on the lengths of the A487 trunk road described in Schedules 2 and 3 to this Notice.

The Order will come into force on 11 January 2024.

The road closure at i above, which will be signed accordingly, is expected to operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from 11 February 2024 until 20 February 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The restrictions and prohibition at ii, iii and iv above are expected to operate intermittently from 00:01 hours on 11 January 2024 and remain in place until 23:59 hours on 20 February 2024.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 1322 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 186 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

**<u>Y Llwybr Arall</u>**

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A487 tua'r gorllewin i Abergwaun, yr A40 tua'r de i Hwlffordd, yr A40 tua'r dwyrain i Gylchfan Penblewin ac yna'r A478 tua'r gogledd i Aberteifi er mwyn ailymuno â'r A487. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt tua 1205 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth.

**ATODLEN 3**
**Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt tua 1322 o fetrau i'r de-orllewin o ganol ei chyffordd â ffordd yr C3163 i Frynhenllan, Dinas hyd at bwynt tua 1205 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganol y gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r U3141 Ffordd Bedd Morris, Trefdraeth hyd at bwynt 185 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r U3447 Feidr Bentick, Trefdraeth.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary prohibition of vehicles**

The length of the A487 trunk road that extends from a point 1322 metres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point 186 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport.

**<u>Alternative route</u>**

The alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A487 to Fishguard, southbound A40 to Haverfordwest, eastbound A40 to Penblewin Roundabout and then the northbound A478 to Cardigan to re-join the A487. Vice versa for westbound vehicles.

**SCHEDULE 2**
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the A487 trunk road that extends from a point approximately 1205 metres north-east of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point 100 metres west of its junction with the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport.

**SCHEDULE 3**
**Temporary 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the A487 trunk road that extends from a point approximately 1322 metres south-west of the centre of its junction with the C3163 road to Bryn-Henllan, Dinas Cross to a point approximately 1205 metres north-east of the centre of that junction.

The length of the A487 trunk road that extends from a point 100 metres west of its junction the U3141 Ffordd Bedd Morris, Newport to a point 185 metres east of the centre of its junction with the U3447 Feidr Bentick, Newport.